



Gosber ar Gân


**Yr Wythfed Sul wedi'r Drindod**

30 Gorffennaf 2023 am 3.30pm

Choral Evensong

**The Eighth Sunday after Trinity**

30 July 2023 at 3.30pm




**Cadeirlan  
Deiniol Sant  
ym Mangor**

Saint Deiniol's  
Cathedral  
in Bangor



*Croeso i  
Gadeirlan  
Deiniol Sant  
ym Mangor.*

*Welcome to  
Saint  
Deiniol's  
Cathedral in  
Bangor.*



Rydych chi'n sefyll rwan  
lle safodd Deiniol bron i  
fileniwm a hanner yn ôl.

Yma, yn y flwyddyn  
525, bu iddo gynnwll o'i  
gwmpas gymuned lawn  
ffydd, gobaith a chariad,  
gan godi o'i chwmpas  
ffens gyll—y **bangor**  
gwreiddiol—iddi'n gysgod  
ac yn noddfa.

Ein gweddi yw y cewch  
chwithau, hefyd, eich  
cofleidio yma gan yr un  
ffydd, gobaith a chariad  
a gyhoeddir gennym  
heddiw ac sy'n ein  
cyfareddu o hyd.

You stand now where  
Deiniol stood almost a  
millennium and a half ago.

Here, in the year 525, he  
gathered around him a  
community of faith, hope  
and love, and raised  
around it a hazel fence—  
the original **bangor**—for  
shelter and sanctuary.

Our prayer is that you,  
too, will be embraced  
here by the same faith,  
hope and love that we  
proclaim and live by  
today.

# Yn y Gosber At Evensong

Mae i oedfa'r Gosber ar Gân wreiddiau dwfn. Mae'n waddol o fuchedd gweddi y mynachlogydd Benedictaidd, lle roedd treigl oriau'r dydd yn esgor ar weddi ar y cyd. Daw'r ffurf a ddefnyddiwn heddiw o Lyfr Gweddi Gyffredin yr unfed ganrif ar bymtheg, lle cyfunwyd dau o'r oedfaon mynachaid hynafol i ffurfio oedfa i'w hoffrymu'n blwyfol ar drefyn dydd, ac mewn cadeirlannau ar gân.

Yn ein Gosber, byddwn yn gwranddo ar lithoedd o'r Hen Destament a'r Newydd, ac yn canu'r ddwy gân hwyrol o'r Efengyl yn ôl Sant Luc – y *Magnificat* (cân am ein hyder yn addewid oesol Duw) a'r *Nunc dimittis* (cân am ein cyflawniad yng ngholeuni oesol Crist). Mae gweddi ar gân ac ar goedd, a sain yr anthem, yn ein dwyn, galon a meddwl, tuag at Dduw.

Yn ystod ein haddoliad, rydyn ni'n dweud ac yn canu gyda'n gilydd y testun **mewn teip trwm**. Mae croeso ichi wneud arwydd o'r Groes pan fydd y geiriau wedi'u marcio ag ✠. Cynigir cyfarwyddiadau eraill (rhuddellau) **mewn teip coch**; os ydych chi'n ei chael hi'n fwy cyfforddus, eisteddych yn hytrach na sefyll neu benlinio.

Fe'ch gwahoddir i fynd â'r llyfryn adref gyda chi, i fyfyrto yn eich amser eich hun ar y geiriau sanctaidd sydd ynddo.

**Buchedd Bangor** yw ein cylchgrawn, sy'n cynnig cymysgedd o ddefnydd ysbrydol a gwybodaeth ymarferol am ein bywyd ar y cyd. Mynnwch gopi heddiw, neu ddilynwch y cod QR i ddarllen arlein.



The service of Choral Evensong has deep roots. It is an inheritance from the prayer life of Benedictine monasteries, where the turning of the hours of the day was marked by communal prayer. The service we know today is from the sixteenth-century Book of Common Prayer, in which two of the ancient monastic observances were combined to form a service to mark the end of the day – and “in quires and places where they sing,” to do so chorally.


At Evensong, we listen to lessons from the Old and New Testaments, and sing the two evening songs from the Gospel According to Saint Luke – the *Magnificat* (a song about our confidence in God's enduring promise) and the *Nunc dimittis* (a song of about our fulfilment in Christ enduring light). Sung and spoken prayer, and the music of an anthem, draw us heart and mind to God.

During our worship, we say and sing together the text **in bold type**. We may make a sign of the Cross at times when the words are marked with ✠. Other directions (rubrics) are offered **in red type**; if you find it more comfortable to sit rather than stand or kneel, please do so.

You are invited to take the booklet away with you, to reflect in your own time on the holy words it contains.

**Buchedd Bangor** is our magazine, offering a mixture of devotional material and practical knowledge about our life together. Pick up a copy of today, or follow the QR code to read online.

# Trefn Order



Codwn ar ein traed ar ganiad y gloch | We stand as the bell is rung



# Cynnull Gathering

## Deisyfiadau Preces

Y ✕ O lôr, rho i'n gwefus gân.

R̄ Aed yn bêr hyd y nef ein mawl.

Y ✕ O Dduw, cofleidia'n hadfyd.

R̄ O Grist, dy ras yw'n golud.

Y Gogoniant fo i Dduw Dad, ac i Dduw'r Mab,

ac i Dduw'r Ysbryd Glân,

R̄ Fel yr oedd yn y dechreuad, mae'n awr, a'n fythol y bydd;  
yn oes oesoedd. Amen.

Y Molwch yr lôr.

R̄ Addolwn ein Duw.

### Translation

Y ✕ O Lord, open thou our lips. R̄ And our mouth shall shew forth thy praise. Y ✕ O God, make speed to save us. R̄ O Lord, make haste to help us. Y Glory be to the Father, and to the Son, and to the Holy Ghost. R̄ As it was in the beginning, is now, and ever shall be, world without end. Amen. Y Praise ye the Lord. R̄ The Lord's name be praised.

### Cerddoriaeth | Music

Plaengan | Plainsong

## Brawddeg Sentence

"Pwy sydd gennyf yn y nefoedd ond ti? Ac nid wyf yn dymuno ond tydi ar y ddaear."

### Translation

"Whom have I in heaven but you? And having you I desire nothing upon earth."



**G**od is Love: let heav'n adore him;  
God is Love: let earth rejoice;  
let creation sing before him,  
and exalt him with one voice.  
He who laid the earth's foundation,  
he who spread the heav'ns above,  
he who breathes through all creation,  
he is Love, eternal Love.

God is Love: and he enfoldeth  
all the world in one embrace;  
with unfailing grasp he holdeth  
every child of every race.  
And when human hearts are breaking  
under sorrow's iron rod,  
then they find that selfsame aching  
deep within the heart of God.

God is Love: and though with blindness  
sin afflicts the souls of all,  
God's eternal loving-kindness  
holds and guides us when we fall.

**Sin and death and hell shall never  
o'er us final triumph gain;  
God is Love, so Love for ever  
o'er the universe must reign.**

**Geiriau | Words**

Timothy Rees (1874-1939)

**Cerddoriaeth | Music | "Blaenwern"**

William Penfro Rowlands (1860-1937)

Eisteddwn | We sit



## *Gair Word*

### Salmyddiaeth Psalmody

Wonderful are thy testimonies: therefore doth my soul keep them.

When thy word goeth forth it giveth light: it giveth understanding unto the simple.

I open my mouth and draw in my breath for joy: because I long for thy commandments.

O look thou upon me and be merciful unto me: as thou art wont to do unto those that love thy name.

Order my steps according to thy word: and so shall no wickedness have dominion over me.

O deliver me from the wrongful dealings of men: and so shall I keep thy precepts.

Shew the light of thy countenance upon thy servant: and teach me thy statutes.

Mine eyes gush out with water: because men keep not thy law.

Codwn ar ein traed | We stand

Glory be to the Father, and to the Son: and to the Holy Ghost;  
as it was in the beginning, is now and ever shall be; world  
without end. Amen.

**Salm | Psalm 119:129-136**  
**Cerddoriaeth | Music**  
John Stainer (1840-1901)

Eisteddwn | We sit

## Llith Lesson

Here begins the fifth verse of the third chapter of the First Book of Kings.

**I**n those days: At Gibeon the Holy One appeared to Solomon in a dream by night; and God said, "Ask what I should give you." And Solomon said, "You have shown great and steadfast love to your servant my father David, because he walked before you in faithfulness, in righteousness, and in uprightness of heart towards you; and you have kept for him this great and steadfast love, and have given him a son to sit on his throne today. And now, O Living One my God, you have made your servant king in place of my father David, although I am only a little child; I do not know how to go out or come in. And your servant is in the midst of the people whom you have chosen, a great people, so numerous they cannot be numbered or counted. Give your servant therefore an understanding mind to govern your people, able to discern between good and evil; for who can govern this your great people?" It pleased the Eternal One that Solomon had asked this. God said to him, "Because you have asked this, and have not asked for yourself long life or riches, or for the life of your enemies, but have asked for yourself understanding to discern what is right, I now do according to your word. Indeed I give you a wise and discerning mind; no one like you has been before you and no one like you shall arise after you."

Here ends the First Lesson.

**1 Brenhinoedd | Kings 3:5-12**

Codwn ar ein traed | We stand



## Magnificat



My soul doth magnify the Lord. And my spirit hath rejoiced in God my Saviour. For he hath regarded the lowliness of his handmaiden; for behold, from henceforth, all generations shall call me blessed. For he that is mighty hath magnified me: and holy is his Name. And his mercy is on them that fear him: throughout all generations. He hath shewed strength with his arm; he hath scattered the proud in the imagination of their hearts. He hath put down the mighty from their seat, and hath exalted the humble and meek. He hath filled the hungry with good things, and the rich he hath sent empty away. He remembering his mercy hath holpen his servant Israel, as he promised to our forefathers, Abraham and his seed for ever. Glory be to the Father, and to the Son, and to the Holy Ghost, as it was in the beginning, is now, and ever shall be, world without end. Amen.

**Cerddoriaeth | Music**  
Plaengan | Plainsong

Eisteddwn | We sit



## Llith Lesson

Yma y mae yn dechrau unfed adnod ar ddeg ar hugain trydedd bennod ar ddeg yr Efengyl yn ôl Sant Mathew.

**B**ryd hynny: Cyflwynodd Iesu ddameg arall i'r dyrfaoedd: "Y mae teyrnas nefoedd yn debyg i hedyn mwstard, a gymerodd rhywun a'i hau yn ei faes. Dyma'r lleiaf o'r holl hadau, ond wedi iddo dyfu, ef yw'r mwyaf o'r holl lysiau, a daw yn goeden, fel bod adar yr awyr yn dod ac yn nythu yn ei changhennau." Llefardodd ddameg arall wrthynt: "Y mae teyrnas nefoedd yn debyg i lefain; y mae gwraig yn ei gymryd, ac yn ei gymysgu â thri mesur o flawd gwenith, nes lefeinio'r cwbl. Y mae teyrnas nefoedd yn debyg i drysor wedi ei guddio mewn maes; pan ddaeth rhywun o hyd iddo, fe'i cuddiodd, ac yn ei lawenydd y mae'n mynd ac yn gwerthu'r cwbl sydd ganddo, ac yn prynu'r maes hwnnw. Eto y mae teyrnas nefoedd yn debyg i fasnachwr sy'n chwilio am berlau gwych. Wedi iddo ddarganfod un perl gwerthfawr, aeth i ffwrdd a gwerthu'r cwbl oedd ganddo, a'i brynu. Eto y mae teyrnas nefoedd yn debyg i rwyd a fwriwyd i'r môr ac a ddaliodd bysgod o bob math. Pan oedd yn llawn, tynnodd dynion hi i'r lan ac eistedd i lawr a chasglu'r rhai da i lestri a thafllu'r rhai gwael i ffwrdd. Felly y bydd yn niwedd amser; bydd yr angylion yn mynd allan ac yn gwahanu'r drwg o blith y cyfiawn, ac yn eu taflu i'r ffwrnais danllyd; bydd yno wyllo a rhincian dannedd. A ydych wedi deall yr holl bethau hyn?" Dywedasant wrtho, "Ydym." "Am hynny," meddai ef wrthynt, "y mae pob ysgrifennydd a ddaeth yn ddisgybl yn nheyrnas nefoedd yn debyg i berchen tŷ sydd yn dwyn allan o'i drysorfa bethau newydd a hen."

Yma y terfyn yr Ail Lith.

Translation

*At that time: Jesus put before the crowds another parable: "The kingdom of heaven is like a mustard seed that someone took and sowed in his field; it is the smallest of all the seeds, but when it has grown it is the greatest of shrubs and becomes a tree, so that the birds of the air come and make nests in its branches." He told them another parable: "The kingdom of heaven is like yeast that a woman took and mixed in with three measures of flour until all of it was leavened. The kingdom of heaven is like treasure hidden in a field, which someone found and hid; then in his joy he goes and sells all that he has and buys that field. Again, the kingdom of heaven is like a merchant in search of fine pearls; on finding one pearl of great value, he went and sold all that he had and bought it. Again, the kingdom of heaven is like a net that was thrown into the sea and caught fish of every kind; when it was full, they drew it ashore, sat down, and put the good into baskets but threw out the bad. So it will be at the end of the age. The angels will come out and separate the evil from the righteous and throw them into the furnace of fire, where there will be weeping and gnashing of teeth. Have you understood all this?" They answered, "Yes." And he said to them, "Therefore every scribe who has been trained for the kingdom of heaven is like the master of a household who brings out of his treasure what is new and what is old."*

**Mathew | Matthew 13:31-33, 44-52**

Codwn ar ein traed | We stand



## Nunc Dimittis



Lord, now lettest thou thy servant depart in peace according to thy word. For mine eyes have seen thy salvation, which thou hast prepared before the face of all people; to be a light to lighten the Gentiles and to be the glory of thy people Israel. Glory be to the Father, and to the Son, and to the Holy Ghost, as it was in the beginning, is now, and ever shall be, world without end. Amen.

**Cerddoriaeth | Music**  
Plaengan | Plainsong

Parhawn ar ein traed, a throi i wynebu'r Dwyrain | We stand, turning to face East

## Credo'r Apostolion **Apostles' Creed**

I believe in God

**the Father Almighty,**

**Maker of heaven and earth:**

**and in Jesus Christ his only Son our Lord,**

**who was conceived by the Holy Ghost,**

**born of the Virgin Mary,**

**suffered under Pontius Pilate,**

**was crucified, dead, and buried;**

**he descended into hell;**

**the third day he rose again from the dead,**

**he ascended into heaven,**

**and sitteth on the right hand of God the Father Almighty;**

**from thence he shall come to judge**

**the quick and the dead.**

**I believe in the Holy Ghost;**

**the holy catholic Church;**

**the communion of saints;**

**the forgiveness of sins;**

**✠ the Resurrection of the body,**

**and the Life everlasting.**

**Amen.**

Parhawn ar ein traed, gan droi o'r Dwyrain | We stand, turning from the East

# Gweddïau Prayers

## Litani Leiaf Lesser Litany

The Lord be with you.  
And with thy spirit.

Let us pray.

**Penliniwn neu eisteddwn | We kneel or sit**

Lord, have mercy upon us.  
Christ, have mercy upon us.  
Lord, have mercy upon us.

**E**in Tad, yr hwn wyt yn y nefoedd, sancteiddier dy Enw, deled dy deyrnas, gwneler dy ewyllys; megis yn y nef, felly ar y ddaear hefyd. Dyro i ni heddiw ein bara beunyddiol a maddau i ni ein dyledion, fel y maddeuwn ninnau i'n dyledwyr. Ac nac arwain ni i brofedigaeth; eithr gwared ni rhag drwg. Amen.

### Translation

*Our Father, who art in heaven, hallowed be thy Name, thy kingdom come, thy will be done, in earth as it is in heaven. Give us this day our daily bread; and forgive us our trespasses, as we forgive those who trespass against us; and lead us not into temptation, but deliver us from evil. Amen.*

O Lord, shew thy mercy upon us;  
And grant us thy salvation.

O Lord, save the King;  
And mercifully hear us when we call upon thee.

Endue thy ministers with righteousness;  
And make thy chosen people joyful.

O Lord, save thy people;  
And bless thine inheritance.

Give peace in our time, O Lord;  
Because there is none other that fighteth for us,  
but only thou, O God.

O God, make clean our hearts within us;  
And take not thy Holy Spirit from us.

### Gweddïau Casgl Collects

**O**Dduw, a ddarperaist i'r rhai sy'n dy garu bethau daionus uwchlaw deall dyn: tywallt yn ein calonnau'r fath gariad atat, fel y bo i ni, gan dy garu uwchlaw pob dim, allu mwynhau. dy addewidion, sy'n fwy rhagorol na dim y gallwn ni ei ddeisyf; trwy Iesu Grist ein Gwaredwr. Amen.

**O** God, from whom all holy desires, all good counsels, and all just works do proceed; give unto thy servants that peace which the world cannot give; that our hearts may be set to obey thy commandments, and also that by thee, we, being defended from the fear of our enemies, may pass our time in rest and quietness; through the merits of Jesus Christ our Saviour. Amen.

**L**ighten our darkness, we beseech thee, O Lord; and by thy great mercy defend us from all perils and dangers of this night; for the love of thy only Son, our Saviour, Jesus Christ. Amen.

#### Translation

*God, who has prepared for those who love your such good things as pass human understanding: pour into our hearts such love toward you, that we, loving you above all things, may obtain your promises, which exceed all that we can desire; through Jesus Christ our Saviour. Amen.*

#### Cerddoriaeth | Music

Plaengan | Plainsong

## Gweddi Waddol Foundation Prayer

**D**einiol, dad a tharddiad, a godaist fangor fawr yn gysgod  
a noddfa, a'th godwyd â'th fagl i fugeilio Gwynedd  
Maelgwn gynt; cwyd i'r uchelfannau weddïau aelwyd  
d'olynydd yn y fangre hon, fel y cyfyd gwawrddydd ffydd,  
gobaith a chariad yn ein calonnau'n fythol.

**Amen.**

### Translation

*O Deiniol, our forebear and founder, who raised  
a great bangor for shelter and sanctuary, and  
who was raised with your crozier to shepherd  
Maelgwn's Gwynedd in those ancient days:  
raise to the heavenly courts the prayers of your  
successor's household in this sacred place, that  
our hearts may awaken to faith, hope and love  
eternally. Amen.*

Eisteddwn | We sit

## Anthem

O sacred oracles of truth,  
O living spring of purest joy!  
By day be ever in my mouth,  
and all my nightly thoughts employ.  
Whoe'er withhold attention due,  
neglect themselves, despising you.

### Geiriau | Words

Charles Jennens (1700-1773)

### Cerddoriaeth | Music

George Frideric Handel (1685-1759)

Penliniwn neu eisteddwn | We kneel or sit

## Gweddïau Prayers

Ceir gweddïau | Prayers are said

Ar derfyn y gweddïau | The prayers conclude

Rhagflaena ni, O Dduw, â'th ragorol ras, a hyrwydda ni â'th barhaus gymorth, fel, yn ein holl weithredoedd o'u cychwyn i'w cwblhau ynot ti, y gogoneddwn dy Enw sanctaidd, a chael o'r diwedd, gan dy drugaredd, lawnder bywyd; trwy Iesu Grist ein Gwardwr.

**Amen.**

*Translation*

*Go before us, O God, with thy most gracious favour, and further us with thy continual help; that in all our works, begun, continued, and ended in thee, we may glorify thy holy Name, and finally by thy mercy obtain the fullness of life; through Jesus Christ our Saviour. Amen.*

**The ✠ grace of our Lord Jesus Christ,  
and the love of God,  
and the fellowship of the Holy Ghost,  
be with us all evermore.**

**Amen.**

Codwn ar ein traed | We stand



# Ymadael Departing

Emyn Hymn



**U**n sylfaen fawr yr Eglwys  
yr Arglwydd Iesu yw,  
ei greadigaeth newydd  
drwy ddŵr a gair ein Duw;  
ei briodasferch sanctaidd  
o'r nef i'w cheisio daeth,  
â'i waed ei hun fe'i prynodd  
a'i bywyd ennill wnaeth.

Elect from every nation,  
yet one o'er all the earth,  
her charter of salvation  
one Lord, one faith, one birth;  
one holy name she blesses,  
partakes one holy food,  
and to one hope she presses  
with every grace endued.

**Yng nghanol gorthrymderau  
a thwrf rhyfeloedd mawr  
hiraethu mae am weled  
tangnefedd ar y llawr,  
nes troi ei ffydd yn olwg  
i lonni'i llygaid prudd,  
a'r Eglwys filwriaethus  
yn ogoneddus fydd.**

**Yet she on earth hath union  
with God the Three in One,  
and mystic sweet communion  
with those whose rest is won:  
O happy ones and holy!  
Lord, give us grace that we,  
like them, the meek and lowly,  
on high may dwell with thee.**

*Translation*

*The one great foundation of the Church is the Lord Jesus, his new creation through water and the word of our God; his holy bride from heaven to seek her he came, with his own blood he bought her and her life he did win. ¶ Amidst oppressions and the din of great wonders she is longing to see peace on the earth, until her faith turns to sight to cheer her doleful eyes, and the Church militant shall be glorious.*

**Geiriau | Words**

Samuel John Stone (1839-1900)

**Cyfieithiad | Translation**

John Arthur Jackson (1845-1875)

**Cerddoriaeth | Music | "Aurelia"**

Samuel Sebastian Wesley (1810-1876)

**Parhawn ar ein traed | We remain standing**

## Bendith Blessing

**B**ydded i gariad Crist lesu eich dwyn ato'i hun; bydded i'w rym eich cynnal yn ei wasanaeth, a'i orfoledd lenwi'ch calon; a bendith Duw hollalluog, y Tad, ✠ y Mab, a'r Ysbryd Glân, a fo yn eich plith ac a drigo gyda chwi yn wastad.

**Amen.**

### Translation

*May the love of Jesus Christ draw you to himself; may his power strengthen you in his service; and may his joy fill your hearts; and the blessing of God Almighty, the Father, ✠ the Son and the Holy Ghost, be among you and remain with you always. Amen.*

## Gollyngiad Dismissal

℣ Duw a fo gyda chwi.

℟ A'th gadw di yng nghariad Crist.

℣ Bendithiwn yr Iôr.

℟ Diolch a fo i Dduw.

### Translation

℣ *The Lord be with you.* ℟ *And with thy spirit.*

℣ *Let us bless the Lord.* ℟ *Thanks be to God.*

### Cerddoriaeth | Music


Plaengan | Plainsong

**Parhawn ar ein traed hyd nes i'r gweinidogion ymadael** | We remain standing until the ministers have departed

### Offrymddarn ar yr organ | Organ voluntary

**Toccata**, Théodore Dubois (1837-1924)

# Hysbys



## **Gweddï dros y rhai'n Ymadael i hyfforddi ar gyfer y Weinidogaeth**

Ar ddiwedd ein Cymun heddiw, gweddïwn dros Naomi Wood a Robert Jones, dau aelod o'n cymuned sy'n ein gadael yr haf hwn i hyfforddi ar gyfer y weinidogaeth offeiriadol. Mae Naomi a Rob wedi rhoi'n hael o'u hamser a'u doniau i'n bywyd ar y cyd yn y fangre hon dros flynyddoedd lawer. Mae'n diolch yn fawr iddynt; byddwn yn eu cynnal yn ein gweddïau dros y blynyddoedd o hyfforddiant sydd o'n blaenau; ac edrychwn ymlaen at eu croesawu yn ôl yma ar defryn y daith honno.

## **Cerfluniau defosiynol yng Nghorff yr Eglwys**

Da, yr wythnos ddiwethaf hon, oedd derbyn dau gilbost newydd yng Nghorff yr Eglwys. Mae un ohonynt wedi disodli'r plinth braidd yn annïogel a oedd yn cynnal delwedd Mair o Fangor. Mae'r ail blinth wedi ein galluogi i ddwyn o'r Seintwar i Gorff yr Eglwys y ddelwedd hardd o Grist y Gwardwr – cerflun hynafol o'r Iseldiroedd sy'n darlunio Iesu Grist yn dal y byd yn ei ofal ac er ei fendith. Rydym yn ddiolchgar i'n saer coed lleol, Gareth Owen, am ei waith cywraïn ar y coed.

## **Cinio Dewch a Rhannu**

Cynhelir ein Cinio Dewch a Rhannu nesaf am 12.15pm, yn dilyn y Choral Holy Eucharist, ar Ddygwyl Fair yn Awst, Dydd Sul 13 Awst. Mae'n Cinio Dewch a Rhannu yn gyfle am sgwrs, difyrwch, croeso a charedigrwydd. Gwahoddir pawb; ac os hoffech awgrymiadau am fwyd i'w ddwyn, siaradwch â Canon Jane Coutts.

## **Addoliad yn ystod yr wythnos dros fisoedd yr haf**

Wrth galon ein haddoliad yn ystod yr wythnos yma yn y Gadeirlan ac yn Eglwys y Groes y mae dathlu'r CYmun. Dethlir y Cymun yn ddyddiol yn y Gadeirlan am 12.30pm, bob dydd o ddydd Llun i ddydd Sadwrn; ac yn wythnosol yn Eglwys y Groes, ar ddydd lau am 2.00pm.

Mae'r offrwm o weddi a mawl yn y Gosber ar Gân yn rhan bwysig arall o fywyd addolgar y Gadeirlan. Yn ystod misoedd yr haf, tra bod ein lluoedd corawl yn lleihau, offrymir Gosber ar Gân yn wythnosol am 3.30pm ar brynhawn Sul, tra bo'n Gosber ar Gân ar nosweithiau'r wythnos wedi eu gohirio. Dywedir Hwyrrol Weddi bob dydd lau am 5.30pm.

## **Cyd-Bererinion Cadeirlan Deiniol Sant ym Magor**

Mae llyfryn am Cyd-Bererinion Cadeirlan Deiniol Sant ar gael yng nghefn y Gadeirlan. Mynnwch gopi, a rhannwch newydd am y Cyd-

Bererinion gyda'ch ffrindiau a'r rhai a allai ddyuno cefnogi ein bywyd ar y cyd yma yn y Gadeirlan.

---

# Yr wythnos

Gwnewch yn fawr o'r addoliad rheolaidd yma. Yn ogystal â'n Cymun llawer ar fore Sul, mae'r dathliadau 12.30pm o'r Cymun yn ystod yr wythnos yn cynnig ennyd dawel, fyfyrion yng nghanol y dydd. Mae croeso mor gynnes yn Eglwys y Groes ym Masgeirchen ar ddydd Iau, gan gynnwys te ar ôl y gwasanaeth. Ac mae ein Gosber ar Gân ar y Sul yn hardd ac yn fyfyrion.

## Heddiw | Today

**3.30pm** Gosber ar Gân | Choral Evensong

Ymatebion | Responses, Plaengan | Plainchant; Gwasanaeth Hwyrion | Evening Service, Plaengan | Plainchant; O sacred oracles of truth, Handel

## Dydd Llun | Monday

**12.30pm** Cymun | Eucharist

## Dydd Mawrth | Tuesday

**9.00am** Camau Bach

**12.30pm** Cymun | Eucharist

## Dydd Mercher | Wednesday

**12.30pm** Cymun | Eucharist

## Dydd Iau | Thursday

**12.30pm** Cymun | Eucharist

**2.00pm** | Eglwys y Groes Cymun | Eucharist

**5.30pm** Hwyrion Weddi | Evening Prayer

## Dydd Gwener | Friday

**12.30pm** Cymun | Eucharist

## Dydd Sadwrn | Saturday

**12.30pm** Cymun | Eucharist

## 6 Awst | Dygwyl y Gweddnewidiad

### 6 August | The Festival of the Transfiguration of Christ

**8.15am** Holy Eucharist

**9.15am** Cymun Bendigaidd ar Gân

Offeren Glyn Rhosyn, Wynn Jones

**11.00am** Choral Holy Eucharist

Missa in Simplicitate, Langlais; My eyes for beauty pine, Howells

**3.30pm** Gosber ar Gân | Choral Evensong

*Cantamus*

Ymatebion | Responses, Smith; Ail Wasanaeth Hwyrion | Second Evening Service, Byrd; Prevent us, O Lord, Byrd

---


# Ein gweddi

**Yn glâf** Joy Levine, offeiriad; John Watkin Jones; Bill Lovelock; Giuseppina de Giovanni; June Everett Hall; Cynthia Farrar; Gillian Briggs; Martin Cassidy; Dan Blackburn; Sue Jennings

**A fu farw'n ddiweddar** Lesley Roberts; Patrick Tuft, offeiriad; Dan Jones; Eileen Grantage; Colette Warwick

**Gŵyl goffa** Neil Goddard (1)

# Notices



## **Prayer for departing Ordinands**

At the end of our Eucharist today, we pray for Naomi Wood and Robert Jones, two members of our community who are leaving us this summer to train for priestly ministry. Naomi and Rob have given generously of their time and talent to the common life of this place over many years. We owe them a debt of gratitude; we will be holding them in our prayers over the years of training that lie ahead; and we look forward to welcoming them back here at that journey's end.

## **Devotional statues in the Nave**

This past week we were delighted to take receipt of two new plinths in the Nave of the Cathedral. One of them has replaced the rather unsafe base that was sustaining the image of Mary of Bangor. The second plinth has enabled us to bring down from the Presbytery the beautiful image of Christ the Saviour – an ancient Netherlandish sculpture that depicts Jesus Christ holding the world in his care and for his blessing. We are grateful to our local carpenter, Gareth Owen, for his careful work with the wood.

## **Bring & Share Lunch**

Our next Bring & Share Lunch will take place at 12.15pm, following the Choral Holy Eucharist, on the Festival of Mary the Mother of God, Sunday 13 August. Our Bring & Share

Lunches are an opportunity for conversation, conviviality, welcome and kindness. All are invited; and if you would like suggestions about food to bring, please speak to Canon Jane Coutts.

## **Weekday worship over the summer months**

At the heart of our weekday worship here at the Cathedral and in Eglwys y Groes is the celebration of the Eucharist. The Eucharist is celebrated daily at the Cathedral at 12.30pm, every day from Monday to Saturday; and weekly at Eglwys y Groes, on Thursdays at 2.00pm.

The offering of prayer and praise at Choral Evensong is another important component of the Cathedral's worshipping life. During the summer months, while our choral forces are reduced, Choral Evensong is offered weekly at 3.30pm on Sunday afternoons, while our our weekday Choral Evensongs are suspended until the full Choir's return. Evening Prayer will be said every Thursday at 5.30pm.

## **The Pilgrim-Friends of Saint Deiniol's Cathedral in Bangor**

A brochure about the Pilgrim-Friends of Saint Deiniol's Cathedral in Bangor – our new friends association – is available at the Cathedral. Please take one away with you, and share news of the Pilgrim-Friends with your friends and those who may wish to

support our common life here at the Cathedral.

---

## This week

Please make the most of the regular round of worship here. In addition to the joyfulness of our Sunday morning Eucharists, the 12.30pm weekday celebrations of the Eucharist are a quiet, meditative moment in the middle of the day. There is such a warm welcome at Eglwys y Groes in Masgeirchen on Thursdays, including afternoon tea after the service. And our Sunday Choral Evensongs are beautiful and reflective.

### Heddiw | Today

**3.30pm** Gosber ar Gân | Choral Evensong

Ymatebion | Responses, Plaengan | Plainchant; Gwasanaeth Hwyról | Evening Service, Plaengan | Plainchant; O sacred oracles of truth, Handel

### Dydd Llun | Monday

**12.30pm** Cymun | Eucharist

### Dydd Mawrth | Tuesday

**9.00am** Camau Bach

**12.30pm** Cymun | Eucharist

### Dydd Mercher | Wednesday

**12.30pm** Cymun | Eucharist

### Dydd Iau | Thursday

**12.30pm** Cymun | Eucharist

**2.00pm** | Eglwys y Groes Cymun | Eucharist

**5.30pm** Hwyról Weddi | Evening Prayer

### Dydd Gwener | Friday

**12.30pm** Cymun | Eucharist

### Dydd Sadwrn | Saturday

**12.30pm** Cymun | Eucharist

## 6 Awst | Dygwyl y Gweddnewidiad 6 August | The Festival of the Transfiguration of Christ

**8.15am** Holy Eucharist

**9.15am** Cymun Bendigaidd ar Gân  
Offeren Glyn Rhosyn, Wynn Jones

**11.00am** Choral Holy Eucharist  
Missa in Simplicitate, Langlais; My eyes for beauty pine, Howells

**3.30pm** Gosber ar Gân | Choral Evensong  
*Cantamus*

Ymatebion | Responses, Smith; Ail Wasanaeth Hwyról | Second Evening Service, Byrd; Prevent us, O Lord, Byrd

---

## Our prayers

**The sick** Joy Levine, priest; John Watkin Jones; Bill Lovelock; Giuseppina de Giovanni; June Everett Hall; Cynthia Farrar; Gillian Briggs; Martin Cassidy; Dan Blackburn; Sue Jennings

**The recently departed** Lesley Roberts; Patrick Tuft, priest; Dan Jones; Eileen Grantage; Colette Warwick

**Year's mind** Neil Goddard (1)



## Cadeirlan ac Eglwys Archesgobol Deiniol Sant ym Mangor

Rhif elusen 1158340

### Diogelu

Mae diogelu plant ac oedolion sydd mewn perygl yn hanfodol, ac rydym wedi ymrwmo i feithrin amgylchedd lle mae pawb yn gallu addoli a chymryd rhan ym mywyd Cadeirlan Deiniol Sant yn ddiogel. Os oes gennych unrhyw bryderon, codwch nhw ar unwaith gydag aelod o dim y Gadeirlan.

### Hygyrchedd

Mae dolen glyw ar waith – gosodwch gymhorthion clyw i'r lleoliad T.

Mae copïau print bras o'r llyfr hwn ar gael gan y stiwardiaid.

Mae tai bach ym mhen dwyreiniol y Gadeirlan, trwy'r drws i'r chwith o'r sgrin y Cwîr.

Os bydd angen i ni adael y Gadeirlan mewn argyfwng, arhoswch ar eich heistedd a dilynwch gyfarwyddiadau'r stiwardiaid.

### Cynaliadwyedd a chaniatâd

Rydym yn defnyddio papur sydd wedi ei ailgylchu 100% a'i gynhyrchu â charbon deuocsid isel.

Caiff cynifer o'n gwasanaethau'n eu ffrydio ar Facebook, ac mae'r recordiad ar gael wedi hynny ar dudalen Facebook y Gadeirlan. Efallai y bydd ffotograffydd swyddogol ar ddyletswydd. Mae eich presenoldeb yn gyfystyr â'ch caniatâd i gael eich cynnwys mewn unrhyw ffilmio, tynnu lluniau, recordio sain neu ddarlledu. Os nad ydych am i ffotograff ohonoch chi neu blentyn yn eich gofal gael ei ddefnyddio gan y Gadeirlan, siaradwch ag aelod o dim y Gadeirlan.

### Cydnabyddiaethau

Atgynhyrchir deunydd yn y drefn hon o wasanaeth o dan CLL 280874. Daw'r drefn a'i chynnwys o **Llyfr Gweddi Gyffredin (1662)**. Mae'r lliithoedd a'r salmyddiaeth Gymraeg yn seiliedig ar **The New Revised Standard Version of the Bible** ac **Y Beibl Cymraeg Newydd: Argraffiad Diwygiedig**.

Ar y clawr ceir dyluniad o Grist y Gwaredwr – cerflun hynafol o'r Iseldiroedd sy'n darlunio Iesu Grist yn dal y byd yn ei ofal ac er ei fendith – wedi ei leoli o'r newydd ar gilbost yng Nghorff yr Eglwys.

## The Cathedral & Metropolitan Church of Saint Deiniol in Bangor

Charity number 1158340

### Safeguarding

Safeguarding children and adults at risk is vital, and we are committed to fostering an environment where everyone is able to worship and participate in the life of Saint Deiniol's Cathedral in safety. If you have any concerns, please raise them immediately with a member of the Cathedral team.

### Accessibility

A hearing loop is in use – please set hearing aids to the T setting.

Large print copies of this booklet are available from the stewards.

Lavatories are located at the east end of the Cathedral, through the door to the left of the Quire screen.

If we need to evacuate the Cathedral in an emergency, please remain seated and follow the directions of the stewards.

### Sustainability and permissions

We use 100% recycled, low carbon dioxide paper.

Many of our services are streamed on Facebook, and the recording made available thereafter on the Cathedral's Facebook page. An official photographer may be on duty. Your attendance constitutes your consent to be included in any filming, photographing, audio recording or broadcast. If you do not wish a photograph of you or a child in your care to be used by the Cathedral, please speak to a member of the Cathedral team.

### Acknowledgements

Material in this order of service is reproduced under the CLL 280874. The form and content of the service are taken from **The Book of Common Prayer (1662)**. The lessons are based on **The New Revised Standard Version of the Bible** and **Y Beibl Cymraeg Newydd: Argraffiad Diwygiedig**.

On the cover is an image of Christ the Saviour – an ancient Netherlandish sculpture that depicts Jesus Christ holding the world in his care and for his blessing – newly located on a plinth in the Nave of the Cathedral.